
Mesurau i'w gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â chanllawiau rhyngwladol ar gyfyngu cysylltiad â meysydd electromagnetig (EMF)

DATGANIAD

Dyddiad Cyhoeddi: 5 Hydref 2020

1. Trosolwg

Mae pobl a busnesau yn defnyddio sbectrwm radio ar gyfer llawer o wasanaethau cyfathrebu bob dydd, gan gynnwys ffonau symudol, radio busnes, Wi-Fi, teledu a radio. Mae pob defnydd o sbectrwm yn cynhyrchu meysydd electromagnetig (EMF) ac mae canllawiau rhyngwladol i helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithredu'n ddiogel.

Cyhoeddir y canllawiau gan y [Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydroedd Nad yw'n loneiddio](#) (ICNIRP) ac maent yn cynnwys terfynau ar gyfer lefel ddiogel o EMF. Mae'r canllawiau hyn yn cael eu cymeradwyo gan Public Health England (PHE) yn ei gyngor i Lywodraeth y DU. Mae'r cyfyngiadau yn y canllawiau'n cael eu deall a'u cymhwyso'n eang gan ddefnyddwyr sbectrwm, gan gynnwys Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol (MNO). Maent hefyd yn sail i brofion EMF Ofcom ei hun, sy'n dangos bod lefelau amlygiad o orsafoedd sylfaen rhwydweithiau symudol ymhell o fewn y terfynau.

Ofcom sy'n gyfrifol am reoli sbectrwm yn y DU. Er mwyn sicrhau bod defnyddwyr sbectrwm yn parhau i weithredu gwasanaethau sy'n ddiogel i bobl, yn ein [hymgyngoriad ym mis Chwefror 2020](#) gwnaethom gynnig ymgorffori'n ffurfiol y terfynau yng Nghanllawiau ICNIRP ar gyfer diogelu'r cyhoedd yn gyffredinol mewn trwyddedau sbectrwm ac awdurdodi sbectrwm sydd wedi'i eithrio o drwydded.¹ Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniadau o ran y cynigion hyn.

Ein penderfyniad – yn gryno

Byddwn yn cynnwys amod penodol mewn trwyddedau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr a fydd yn mynnu bod trwyddedigion yn cydymffurfio â therfynau cyhoeddus cyffredinol yr ICNIRP ar gysylltiad ag EMF. Byddai'r amod hwn yn berthnasol i bob dosbarth o drwyddedau sy'n awdurdodi pwerau trawsyrru o dros 10 Wat EIRP (gan gynnwys, er enghraifft, trwyddedau cwmnïau ffonau symudol, darlledwyr teledu a radio a'r rhan fwyaf o gysylltiadau microdon pwynt i bwynt).

Rydyn ni'n bwriadu defnyddio dull tebyg ar gyfer offer sydd wedi'i eithrio rhag gorfod cael trwydded ac sydd wedi'i awdurdodi i drawsyrru ar bwerau o dros 10 Wat EIRP, fel rhai mathau penodol o derfynellau lloeren. Rydym ni'n bwriadu diwygio'r rheoliadau perthnasol ar gyfer eithrio trwyddedau fel sy'n cael eu hystyried yn briodol fesul achos yn unol â'n penderfyniad polisi.

Hefyd, byddwn yn mynnu bod trwyddedigion sbectrwm yn cadw cofnodion (gan gynnwys canlyniadau unrhyw fesuriadau, profion a chyfrifiadau) sy'n dangos sut maen nhw wedi cydymffurfio â therfynau cyhoeddus cyffredinol yr ICNIRP.

Rydym wedi gwrandao ar bryderon rhai trwyddedigion ynghylch y baich gweinyddol posibl o ddangos cydymffurfiaeth. Er mwyn helpu i leddfu hyn, rydym ni wedi datblygu cyfrifiannell EMF syml ar-lein, er mwyn iddyn nhw allu asesu eu cydymffurfiad yn haws. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i amod arfaethedig ein trwydded ac i'n 'Canllawiau ar Gydymffurfio a Gorfodi EMF'.

¹ Rydym yn cyfeirio at y terfynau hyn fel 'terfynau cyhoeddus cyffredinol ICNIRP'.

- 1.1 Yn y DU, Public Health England sy'n arwain ar faterion iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â meysydd electromagnetig amleddau radio, ac mae ganddo ddyletswydd statudol i roi cyngor i'r Llywodraeth ar unrhyw effeithiau iechyd a allai gael eu hachosi drwy ddod i gysylltiad ag EMF. Prif gyngor PHE yw y dylai cysylltiad ag EMF gydymffurfio â Chanllawiau ICNIRP. Mae Ofcom yn awdurdodi ac yn rheoli'r defnydd o sbectrwm radio yn y DU drwy gyhoeddi trwyddedau a/neu drwy osod amodau ar gyfer defnyddio sbectrwm ar sail esemptiad trwydded. Rydym yn ystyried cyngor PHE mewn perthynas â EMF wrth reoli'r sbectrwm radio. Rydym hefyd yn mesur lefelau EMF ger gorsafoedd sylfaen rhwydweithiau symudol ac yn cyhoeddi canlyniadau'r mesuriadau hyn.
- 1.2 Dylai gwneuthurwyr, gosodwyr a defnyddwyr sbectrwm radio fod yn ymwybodol o Ganllawiau'r ICNIRP yn barod, a dylen nhw fod yn ystyried cysylltiad ag EMF wrth gynnal eu busnes. Mae ein mesuriadau ein hunain o EMF hyd yma o gwmpas gorsafoedd sylfaen rhwydweithiau symudol 5G yn dangos lefelau EMF yn is o lawer na therfynau cyhoeddus cyffredinol ICNIRP (nid oes unrhyw fesuriadau wedi mynd dros 1.5% o'r terfyn).
- 1.3 Fodd bynnag, yn ein hymgyngoriad ym mis Chwefror 2020 nodwyd gennym efallai nad oedd rhai defnyddwyr sbectrwm yn gwbl ymwybodol o gyfyngiadau cyhoeddus cyffredinol yr ICNIRP a/neu efallai nad oeddynt yn rhoi ystyriaeth lawn i gysylltiad EMF wrth osod neu addasu offer radio.
- 1.4 Fel y sefydliad sy'n awdurdodi defnyddio'r sbectrwm, ac sy'n arbenigo mewn mesur allyriadau EMF, rydyn ni o'r farn ein bod ni mewn sefyllfa dda i helpu i liniaru peryglon sy'n gysylltiedig ag EMF a helpu i dawelu meddyliau'r cyhoedd. Mae gennyn ni hefyd bwerau cyfreithiol i ddal defnyddwyr y sbectrwm i gyfrif os oes problemau'n dod i'r fei.
- 1.5 Gwnaethom nodi nad yw'r trefniadau rheoleiddio presennol ar gysylltiad ag EMF yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr sbectrwm gydymffurfio â chyfyngiadau cyhoeddus cyffredinol ICNIRP ac nid ydynt yn rhoi Ofcom mewn sefyllfa lle gallem gymryd camau gorfodi priodol petai'r cyfyngiadau'n cael eu torri. Er enghraifft, mae deddfwriaeth benodol eisoes – sy'n cael ei gorfodi'n bennaf gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) – sy'n mynnu bod cyflogwyr yn diogelu gweithwyr rhag EMF ond nid yw'n cynnwys gwarchod y cyhoedd yn gyffredinol rhag EMF. Mae cydymffurfio â chyfyngiadau cyhoeddus cyffredinol ICNIRP hefyd wedi'i gynnwys eisoes yng Nghod Ymarfer Gorau gweithredwyr rhwydweithiau symudol ar Ddatblygu Rhwydweithiau Symudol, ond ymrwymiad gwirfoddol yw hwn.
- 1.6 Roedd y cynigion yn ein hymgyngoriad ym mis Chwefror 2020 yn ceisio ategu – ac nid gorgyffwrdd – â'r cyfundrefnau rheoleiddio sy'n bodoli ar hyn o bryd. Eu bwriad oedd mynd i'r afael â'r risgiau rydym wedi'u nodi a helpu i dawelu meddyliau'r cyhoedd.
- 1.7 Cawsom oddeutu 400 ymateb i'n hymgyngoriad ym mis Chwefror 2020. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn dod o un o ddau grŵp: a) sefydliadau ac unigolion yn gwrthwynebu 5G ar sail iechyd a b) selogion radio amatur yn erbyn cynnwys eu hobi o fewn cwmpas ein cynigion. Daeth gweddill yr ymatebion yn bennaf gan weithredwyr presennol y diwydiant offer symudol neu offer radio arall. Roedd rhai yn cefnogi ein cynigion ac yn dweud eu bod yn rhoi sicrwydd priodol i'r cyhoedd ynghylch diogelwch EMF. Dywedodd eraill nad oedd

angen ein cynigion oherwydd nad oedd tystiolaeth o niwed a/neu fod y rheoliadau presennol yn ddigonol. Roedd pryder y gallai ein cynigion arwain at faich gweinyddol anghymesur na ellir ei gyfiawnhau.

- 1.8 Rydyn ni wedi ystyried effaith bosibl ein cynigion yn ofalus ac a ydyn nhw'n ymateb cymesur i'r risgiau rydyn ni wedi'u nodi.
- 1.9 Mae bwlch yn y rheoliad presennol sy'n golygu ei bod yn eglur bod modd gorfodi achosion o dorri cyfyngiadau diogelwch EMF perthnasol mewn perthynas â diogelu gweithwyr, ond nid yn fwy cyffredinol er mwyn diogelu'r cyhoedd yn gyffredinol. Rydym yn parhau i gredu y dylid diogelu'r cyhoedd yn gyffredinol rhag y risg benodol o niwed o ganlyniad i gysylltiad ag EMF. Mae tystiolaeth hefyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad nad yw rhai defnyddwyr offer radio yn gwbl ymwybodol o'r angen i sicrhau bod lefelau cysylltiad ag EMF o fewn terfynau cyhoeddus cyffredinol ICNIRP.
- 1.10 Er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau hyn, credwn ei bod yn briodol i ni ymyrryd a mynnu bod defnyddwyr sbectrwm yn gydymffurfio â therfynau cyhoeddus cyffredinol ICNIRP. O'r herwydd, rydyn ni wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion.
- 1.11 Fodd bynnag, rydym wedi gwrandao ar bryderon ymatebwyr ac wedi cyflwyno newidiadau pwysig i eiriad ein hamod trwydded arfaethedig a 'Chanllawiau ar Gydymffurfio a Gorfodi EMF'. Mae'r newidiadau hyn yn egluro cwmpas ein cynigion ac yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr ynghylch eu heffaith bosibl.
- 1.12 Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys darparu cyfrifiannell EMF syml ar-lein y gall trwyddedigion a defnyddwyr sbectrwm eraill ei defnyddio i ddangos eu bod yn gydymffurfio mewn ffordd syml. Bydd y gyfrifiannell yn galluogi defnyddwyr sbectrwm i wirio'n hawdd a yw'r defnydd o'u hoffer radio yn debygol o fynd y tu hwnt i derfynau cyhoeddus cyffredinol ICNIRP, ar sail rhai tybiaethau ceidwadol. Ar gyfer llawer o sefyllfaoedd risg isel eraill, gallai dangos bod offer yn cael ei weithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr ar ddiogelwch EMF fod yn ddigonol.

Y camau nesaf

- 1.13 Er mwyn rhoi'r penderfyniadau a nodir yn y Datganiad hwn ar waith, byddwn yn amrywio pob trwydded yr effeithir arni i gynnwys amod trwydded EMF newydd. Byddwn hefyd yn cynnwys amod trwydded EMF ym mhob trwydded newydd.
- 1.14 Ochr yn ochr â'r Datganiad hwn, rydyn ni'n cyhoeddi ymgynghoriad byr â ffocws penodol i roi cyfle i randdeiliaid roi adborth ar weithredu'r penderfyniadau rydyn ni wedi'u gwneud yn y Datganiad hwn. Rydym yn ymgynghori ymhellach ar:
 - a) y newidiadau drafftio penodol rydym wedi'u gwneud i eiriad amod y drwydded er mwyn gweithredu ein penderfyniadau ar ei chwmpas; a'r
 - b) newidiadau yr ydym wedi eu gwneud i'n 'Canllawiau ar Gydymffurfio a Gorfodi EMF' yn ogystal â'n cyfrifiannell EMF newydd.

Mesurau i'w gwneud yn ofynnol i gydymffurfio â chanllawiau rhyngwladol ar gyfyngu cysylltiad â meysydd electromagnetig (EMF)

- 1.15 Byddwn yn ymgynghori tan 16 Tachwedd 2020. Byddwn wedyn yn ystyried ac yn rhoi sylw i unrhyw sylwadau a gawn mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac yn cyhoeddi fersiynau wedi'u diweddarau o'n hamod trwydded EMF, ein 'Canllawiau ar Gydymffurfio a Gorfodi EMF' a'n cyfrifiannell EMF ar-lein (fel sy'n briodol).
- 1.16 Yn dilyn hynny, byddwn yn dechrau'r broses ffurfiol o amrywio trwyddedau ym mhob dosbarth trwydded sy'n rhoi awdurdod i offer radio drawsyrro ar bwerau uwchlaw 10 Wat EIRP.
- 1.17 Byddwn hefyd yn ystyried ein camau nesaf ar gyfer diwygio rheoliadau eithrio trwydded perthnasol fel sy'n cael eu hystyried yn briodol fesul achos i gynnwys amod sy'n gysylltiedig ag EMF.